

# Beth mae gwyddonwyr data yn ei wneud?

- Chwilio am batrymau
- Cymharu grwpiau
- Defnyddio graffiau i sylwi ar dueddiadau
- Gofyn cwestiynau fel 'Pam mae hyn yn digwydd?'
- Helpu pobl i wneud penderfyniadau gwell gan ddefnyddio tystiolaeth

**Mae gwyddonwyr data yn chwilio am storïau mewn data.**

# Cynhesu

## Eich Dyfaliad Amser Sgrin...

Faint o oriau ydych chi'n meddwl y mae pobl ifanc ledled Cymru yn eu treulio ar sgriniau yn y nos?

*Mae hyn yn cynnwys ffonau, chwarae gemau, ffrydio, gwefannau cymdeithasol - **eich dyfaliad gorau!***

# Beth mae data'r Rhwydwaith yn ei ddweud wrthym ni

Yng Nghymru yn **2023**, dywedodd **37.7%** o bobl ifanc **11–16 oed** eu bod yn edrych ar sgrin am **11:30pm neu'n hwyrach** ar noson ysgol.

Mae hyn yn uwch nag yn **2017 (30.4%)** a **2019 (31.7%)**.

Ar gyfer **bechgyn**, y ganran yn **2023** oedd **36.1%**.

Ar gyfer **merched**, y ganran yn **2023** oedd **38.4%**.

Ffynhonnell: Tabl data Dangosfwrdd y Rhwydwaith ar gyfer Cymru, 2017-2023.

# Sylwi ar y syndod ynghylch amser sgrin

**Dewiswch un patrwm neu wahaniaeth y gallwch ei weld yn y data.**

***Gofynnwch i chi'ch hun: 'Pam gallai hyn fod yn digwydd?'***

**Awgrymwch un rheswm am y patrwm.**

**Rhannwch eich syniad gyda phartner am 30 eiliad.**

**Cofiwch:** Y rhain yw'r union fathau o gwestiynau y mae gwyddonwyr data yn eu gofyn pan fyddant yn ceisio dod o hyd i'r stori yn y data.